HOPE
Helpu eraill i gymryd rhan ac ymgysylltu

age Cymru
Creu Cymru oed gyfeillgar

# Pwysigrwydd Eiriolaeth 8

## Adolygiad o wasanaethau eiriolaeth i oedolion yng Nghymru gan ganolbwyntio'n benodol ar bobl hŷn



Mawrth 2022

# Cynnwys

**1. Crynodeb Gweithredol** 3

**2. Adolygiad o wasanaethau eiriolaeth i oedolion yng Nghymru gan ganolbwyntio ar bobl hŷn** 4

Cyflwyniad 4
Methodoleg 4
Canfyddiadau allweddol ers Pwysigrwydd Eiriolaeth 7 5
Nifer y gwasanaethau a'r bobl a gynorthwyir 6
Staff eiriolaeth a gwirfoddolwyr 6
Gwasanaethau eiriolaeth a ariennir yn benodol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru 7
Gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer grŵp cleientiaid ehangach ond mae pobl hŷn yn cael eu cefnogi fel rhan o'r gwasanaeth 7
Iaith 8
Ansawdd a safonau 8
Casgliadau ac argymhellion 9

**3. Datblygiadau mewn Eiriolaeth yng Nghymru** 11

## Cydnabyddiaethau

Mae Age Cymru yn ddiolchgar i'r holl ddarparwyr gwasanaethau eiriolaeth a wnaeth gwblhau'r arolwg ar-lein. Diolch hefyd i'r rhai a wnaeth gytuno i ni gysylltu â nhw er mwyn cael ymatebion manylach ar gyfer rhai o'r materion.

Hoffem ddiolch hefyd i bawb a gynorthwyodd i baratoi'r arolwg ac wrth gynhyrchu'r adroddiad.

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:**

Louise Hughes
Pennaeth Diogelu ac Eiriolaeth
Age Cymru
Parc St Andrews
Lôn y Frenhines
Parc Diwydiannol Bromfield
Wyddgrug
Fflint
CH7 1XB

01352 706228
Louise.hughes@agecymru.org.uk

**Neu ar gyfer ymholiadau cyffredinol:**

Age Cymru
Llawr Gwaelod
Tŷ Mariners
Llys Trident
Ffordd East Moors
Caerdydd
CF24 5TD

029 2043 1555
enquiries@agecymru.org.uk

# 1. Crynodeb Gweithredol

**Mae Pwysigrwydd Eiriolaeth 8 yn rhoi cipolwg wedi'i ddiweddaru o'r ddarpariaeth eiriolaeth yng Nghymru ar gyfer oedolion, gyda phwyslais arbennig ar bobl hŷn. Mae'n ymddangos bod nifer cyffredinol yr eiriolwyr, y bobl a gefnogir a nifer y gwasanaethau a ariennir i ddarparu eiriolaeth ledled Cymru oll wedi cynyddu ers yr arolwg diwethaf yn 2020.**

Erbyn hyn, mae mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faint, ansawdd, ystod ac amrywiaeth yr eiriolaeth sy'n bodoli ledled Cymru ymhlith darparwyr eiriolaeth, comisiynwyr awdurdodau lleol a hefyd gan Lywodraeth Cymru. Cam pwysig yn y dyfodol yw ymestyn y ddealltwriaeth well hon i ddarpar ddefnyddwyr gwasanaethau, gwasanaethau gwybodaeth a chyngor a hefyd i weithwyr cymdeithasol a gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae angen mwy o hyfforddiant a gwybodaeth gan weithwyr proffesiynol i gynyddu eu hymwybyddiaeth o eiriolaeth a hefyd hawliau pobl er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.

Ers Pwysigrwydd Eiriolaeth 7 yn 2020, mae pandemig y Coronafeirws wedi cael effaith sylweddol ar wasanaethau eiriolaeth yng Nghymru. Yn 2020 a 2021, cynhaliwyd dau arolwg o eiriolwyr yng Nghymru i gasglu effaith y pandemig ar wasanaethau eiriolaeth, eiriolwyr a chleientiaid. Daeth y ddau adroddiad i'r casgliad bod methiannau hawliau dynol, materion diogelu a gwneud penderfyniadau cyffredinol yn cael effaith sylweddol ar eiriolaeth. Roedd yr effaith ar lesiant cleientiaid ac eiriolwyr hefyd wedi'i gwaethygu gan y diffyg pecynnau gofal a chymorth gan wasanaethau eraill. Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd ag ymatebion i'r arolwg Pwysigrwydd Eiriolaeth 8.

Mae bron pob awdurdod lleol bellach wedi comisiynu gwasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Y Ddeddf). Mynegwyd pryder yn ystod cyfweliadau yn 2020 y gallai cyflawni gofynion statudol ar gyfer eiriolaeth gael effaith ar argaeledd eiriolaeth lefel is, ataliol yn y gymuned. Byddai'r gostyngiad yn nifer y sefydliadau sy'n cwblhau'r arolwg Pwysigrwydd Eiriolaeth 8, a dadansoddiad o bwy yw'r sefydliadau hynny, yn awgrymu bod y pryderon hynny wedi dod i'r amlwg ar gyfer rhai o'r sefydliadau sy'n cefnogi oedolion o bob oed.

Yn wahanol i'r gostyngiad yn nifer y sefydliadau sy'n cefnogi pobl o bob oed, mae Age Cymru yn arbennig o falch o nodi'r cynnydd yn nifer y darparwyr eiriolaeth arbenigol, gwasanaethau ac eiriolwyr sy'n cefnogi pobl hŷn yn benodol. Mae hyn hefyd wedi arwain at gynnydd cysylltiedig yn nifer y bobl hŷn a gefnogir. Mae hyn wedi deillio'n rhannol o sicrhau cyllid gan Age Cymru i gyflawni prosiectau Eiriolaeth HOPE a Dementia.



# 2. Adolygiad o wasanaethau eiriolaeth i oedolion yng Nghymru gan ganolbwyntio'n benodol ar bobl hŷn

## Cyflwyniad

Rydym yn falch o gyflwyno Pwysigrwydd Eiriolaeth 8, ein 8fed adroddiad ar ddarpariaeth eiriolaeth i oedolion yng Nghymru gyda phwyslais arbennig ar bobl hŷn.

Dros yr 16 mlynedd diwethaf, mae Age Cymru wedi bod yn adolygu argaeledd gwasanaethau, materion yn ymwneud â chyllid a chynaliadwyedd, ansawdd gwasanaeth a hyfforddiant eiriolwyr, eiriolaeth a'i rôl o ran diogelu, hygyrchedd o ran iaith, a gwybodaeth a dealltwriaeth o newidiadau deddfwriaethol mewn eiriolaeth.

Defnyddiwyd ein tystiolaeth i ddylanwadu ar gyllidwyr grantiau, comisiynwyr a Gweinidogion Llywodraeth Cymru. Rydym wedi galw am roi terfyn ar y loteri cod post sydd ar gael, am ddull ariannu mwy cyson, ar gyfer mwy o gynaliadwyedd yn y sector ac yn bwysicaf oll i bobl sydd angen cefnogaeth y gwasanaethau hyn gael mynediad lle bynnag y maent yng Nghymru. Fe wnaethom hefyd alw am ddyletswydd statudol newydd ar gyfer eiriolaeth o dan y Ddeddf.

Mae eiriolaeth annibynnol yn wasanaeth hanfodol i unigolion er mwyn sicrhau bod y person (a'u canlyniadau llesiant) yn cael ei roi wrth wraidd gwaith y gwasanaethau cymorth. Mae eiriolaeth annibynnol yn rhoi llais, dewis a rheolaeth i ddinasyddion dros gyflawni eu canlyniadau llesiant.

Bu datblygiadau sylweddol ym maes eiriolaeth annibynnol yn y cyfnod rhwng Pwysigrwydd Eiriolaeth 5 (2016), drwy Pwysigrwydd Eiriolaeth  6 a 7 ac erbyn hyn Pwysigrwydd Eiriolaeth 8 (2022).

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod eiriolaeth ar gael i bob unigolyn yng Nghymru mewn rhai amgylchiadau gan gynnwys (ond nid yn unig) asesu, cynllunio gofal, adolygu a diogelu. Mae bron pob Awdurdod Lleol bellach wedi comisiynu gwasanaethau i gydymffurfio â'r gofynion hyn gyda llawer yn paratoi i adolygu ac ail-dendro'r gwasanaethau hyn. Cynhaliwyd yr arolwg diweddaraf yn ystod pandemig y Coronafeirws ac mae'n cwmpasu cyfnod arbennig o heriol ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth, eiriolwyr a chleientiaid.

Mae Pwysigrwydd Eiriolaeth 8 yn cyflwyno canfyddiadau ein harolwg diweddaraf. Mae'n archwilio'r canfyddiadau yng ngoleuni cwblhau'r cylch cyntaf o wasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol a gomisiynwyd a weithredir o dan y gofyniad eiriolaeth newydd o fewn Y Ddeddf a thrwy bandemig y Coronafeirws. Bydd Pwysigrwydd Eiriolaeth 8 yn rhoi cipolwg eang o'r sefyllfa bresennol yng Nghymru.

## Methodoleg

Defnyddiwyd arolwg ar-lein i ddosbarthu ein cwestiynau i ddarparwyr. Mae gennym wybodaeth helaeth am y sector eiriolaeth yng Nghymru ond cynhaliwyd ymarfer bwrdd gwaith arall i sicrhau ein bod yn ymgysylltu â chymaint o ddarparwyr â phosibl.

Mae ymatebwyr yr arolwg Pwysigrwydd Eiriolaeth yn hunan-ddethol. Gofynnir am ymatebion gan sefydliadau sy'n cael eu hariannu i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth i oedolion ledled Cymru. Cesglir gwybodaeth hefyd am

y cymorth a roddir i bobl hŷn naill ai drwy wasanaethau pwrpasol neu fel rhan o'r grŵp cleientiaid ehangach. Er gwaethaf pob ymdrech, ni allwn sicrhau bod gennym ddata gan 100% o ddarparwyr.

Roedd y data a gasglwyd gennym yn hydredol, ac felly'n adlewyrchu'r arolygon eraill yn ein cyfres; rydym wedi casglu data i roi'r darlun llawnaf o wasanaethau eiriolaeth yng Nghymru, gan wneud y data'n ddefnyddiol i gomisiynwyr, darparwyr a dinasyddion fel ei gilydd.

Anfonwyd yr arolwg allan yn wreiddiol ym mis Tachwedd 2021, gan gysylltu'n uniongyrchol â chynifer o ddarparwyr ag y gallem, gan gynnwys y rhai yr oeddem eisoes wedi derbyn ymatebion ganddynt i arolygon blaenorol a'r rhai yr oeddem wedi dod yn ymwybodol ohonynt drwy'r Rhaglen Eiriolaeth Golden Thread (GTAP). Roeddem yn ymwybodol bod llawer yn newid yn y sector eiriolaeth ac mae gennym gyfrifoldeb i gynhyrchu ciplun clir a chywir yn yr adroddiad hwn.

## *Canfyddiadau allweddol ers Pwysigrwydd Eiriolaeth 7*

- **Mae cynnydd wedi bod yn nifer y gwasanaethau eiriolaeth (o 12 i 19) sydd yn benodol ar gyfer pobl hŷn.**
- **Bu cynnydd o 17% yn y gwasanaethau sy'n darparu eiriolaeth i grŵp cleientiaid ehangach. Daw'r cynnydd o 76 i 89 o wasanaethau.**
- **Mae 132 o eiriolwyr cyflogedig a gwirfoddol yn darparu eiriolaeth yn benodol i bobl hŷn. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu pedwarplyg.**
- **Mae 150 o eiriolwyr cyflogedig llawn amser yn gweithio ledled Cymru. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu 52% ers 2020.**
- **Mae 79 o eiriolwyr cyflogedig rhan-amser sy'n gynnydd o 14%.**
- **Mae 117 o eiriolwyr gwirfoddol yn gweithio mewn amrywiaeth o wasanaethau eiriolaeth ledled Cymru. Mae hyn 10 yn llai na'r ffigur yn Pwysigrwydd Eiriolaeth 7.**
- **Cyfanswm nifer bobl hŷn gefnogwyd ar draws yr holl wasanaethau dros 12 mis diwethaf oedd 9,090, cynnydd o bron 1,000 ers Pwysigrwydd Eiriolaeth 7.**
- **Cefnogwyd 5,034 yn fwy o bobl hŷn gan wasanaethau eiriolaeth a ariannwyd yn benodol ar gyfer pobl hŷn nag yn 2020. Mae hyn wedi cynyddu'n fwy na phedair gwaith.**
- **Cynyddodd cyfanswm nifer y bobl a gefnogwyd ar draws yr holl wasanaethau yng Nghymru dros y 12 mis diwethaf 16% i 19,592.**
- **Mae gwasanaethau a ariennir yn benodol ar gyfer pobl hŷn bellach yn bodoli ym mhob un o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Yn 2020 dim ond mewn 15 o awdurdodau lleol yr oeddent yn bodoli. Mae gwasanaethau ar gyfer grŵp cleientiaid ehangach yn parhau i gwmpasu pob awdurdod lleol.**
- **Ar yr adeg y cynhaliwyd yr arolwg, nid oedd un ardal awdurdod lleol yng Nghymru wedi comisiynu eu gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.**



## *Nifer y gwasanaethau a'r bobl a gynorthwyir*

| | Pwysigrwydd Eiriolaeth 6 2018 | Pwysigrwydd Eiriolaeth 7 2020 | Pwysigrwydd Eiriolaeth 8 2022 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer yr ymatebwy | 21 | 33 | 27 |
| Nifer y gwasanaethau a ariennir yn benodol ar gyfer pobl hŷn | 13 | 12 | 19 |
| Nifer y sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn | 7 | 6 | 10 |
| Nifer y gwasanaethau eiriolaeth eraill a ariennir lle mae pobl hŷn yn rhan o'r grŵp cleientiaid | 41 | 76 | 89 |
| Nifer y sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn | 18 | 30 | 24 |
| Cyfanswm nifer y bobl a gefnogir | 10,402 | 16,909 | 19,592 |
| Cyfanswm nifer y bobl hŷn a gefnogir | 5,466 | 8,153 | 9,090 |
| Nifer yr ardaloedd awdurdod lleol gyda gwasanaethau wedi'u hariannu ar gyfer grŵp cleientiaid ehangach | 22 | 22 | 22 |
| Nifer yr ardaloedd awdurdodau lleol sydd â gwasanaethau a ariennir yn benodol ar gyfer pobl hŷn | 15 | 15 | 22 |

(Noder y gallai fod gan un darparwr fwy nag un gwasanaeth eiriolaeth, a bydd gan rai eraill wasanaethau yn benodol ar gyfer pobl hŷn yn ogystal â gwasanaethau ar gyfer grŵp cleientiaid ehangach).

## *Staff eiriolaeth a gwirfoddolwyr*

| | Pwysigrwydd Eiriolaeth 6 2018 | | Pwysigrwydd Eiriolaeth 7 2020 | | Pwysigrwydd Eiriolaeth 8 2022 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwasanaethau pobl hŷn | Pob math o wasanaeth | Gwasanaethau pobl hŷn | Pob math o wasanaeth | Gwasanaethau pobl hŷn | Pob math o wasanaeth |
| Llawn Amser | 10 | 44 | 8 | 99 | 23 | 150 |
| Rhan Amser | 12 | 51 | 10 | 69 | 18 | 79 |
| Gwirfoddolwr | 15 | 38 | 13 | 127 | 91 | 117 |

## *Gwasanaethau eiriolaeth a ariennir yn benodol ar gyfer pobl hŷn (50+) yng Nghymru*

Mae ein harolwg yn awgrymu bod 19 o wasanaethau wedi'u hariannu'n benodol ar gyfer pobl hŷn o'i gymharu â 12 yn 2020. Mae nifer y sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau hynny wedi cynyddu o chwech i 10. Mae pump o'r sefydliadau'n darparu un gwasanaeth eiriolaeth yr un, mae tri yn darparu dau wasanaeth yr un, mae un yn darparu tri gwasanaeth gyda'r sefydliad sy'n weddill yn darparu pum gwasanaeth.

Nid yw'n syndod bod nifer y bobl hŷn a gefnogir yn uniongyrchol gan y gwasanaethau hyn yn ystod y 12 mis blaenorol hefyd wedi cynyddu, gan gynyddu o 1,186 yn 2020 i 6,220 yn 2022. Mae nifer yr eiriolwyr cyflogedig a gwirfoddol hefyd wedi cynyddu o 31 yn 2020 i 132 yn 2022.

Dywedodd ymatebwyr wrth ein harolwg eu bod yn cael eu hariannu i ddarparu ystod eang o wasanaethau eiriolaeth ar draws y categorïau a restrir yn Rhan 10 Cod Ymarfer (Eiriolaeth) sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf. Mae mwy o gysondeb hefyd o ran argaeledd y gwasanaethau hyn ledled Cymru.

Yn ddaearyddol, mae gwasanaethau eiriolaeth yn benodol ar gyfer pobl hŷn bellach ar gael ym mhob rhan o Gymru. Yn 2020, dim ond mewn 15 ardal awdurdod lleol yr oedd sefydliadau sy'n cefnogi pobl hŷn yn benodol yn bodoli. Yn ogystal â hyn, efallai y bydd pobl hŷn hefyd yn gallu cael gafael ar gymorth gan wasanaethau gyda grŵp cleientiaid ehangach gan fod gan bob ardal awdurdod lleol o leiaf saith math gwahanol o wasanaethau eiriolaeth, fel y nodwyd drwy fapio gwasanaethau eiriolaeth a gynhelir gyda chymorth gwasanaethau sy'n mynychu cyfarfodydd y rhwydwaith eiriolaeth ledled Cymru.



## *Gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer grŵp cleientiaid eang ond mae pobl hŷn yn cael eu cefnogi fel rhan o'r gwasanaeth*

Mae nifer yr ymatebion i'r arolwg Pwysigrwydd Eiriolaeth 8 wedi gostwng o'i gymharu ag ymgymeriad blaenorol yr arolwg. Cwblhaodd 27 o sefydliadau'r arolwg hwn o'i gymharu â 33 yn 2020. Fodd bynnag, cyn yr arolwg Pwysigrwydd Eiriolaeth 7, ymatebodd uchafswm o ychydig dros 20 i bob un o'r arolygon blaenorol. Er gwaethaf y gostyngiad bach hwn mewn ymatebwyr, mae'r ffigurau cyffredinol ar gyfer pob maes darparu gwasanaethau, ar gyfer gwasanaethau sy'n cefnogi oedolion o bob oed, wedi cynyddu i'r lefelau uchaf a gofnodwyd o'u cymharu ag adroddiadau blaenorol.

Ers 2020 mae nifer y gwasanaethau sy'n darparu eiriolaeth i grŵp cleientiaid ehangach lle mae pobl hŷn hefyd yn cael eu cefnogi wedi codi 17% i 89 yn 2022. Mae nifer y bobl a gefnogir gan y gwasanaethau hyn hefyd wedi codi o 16,909 i 19,592 yn 2022. Yn gyffredinol, mae cyfanswm nifer y bobl hŷn sy'n cael cymorth eiriolaeth hefyd wedi codi i'r lefel uchaf a gofnodwyd o 9,090.

Nifer y sefydliadau a oedd yn darparu'r gwasanaethau hyn oedd 24. Ar wahân i 30 yn yr arolwg Pwysigrwydd Eiriolaeth 7, mae hyn yn dal i fod yn sylweddol uwch nag unrhyw arolwg arall yn y gyfres. Mae nifer yr eiriolwyr llawn-amser a rhan-amser ill dau wedi cynyddu i'r lefelau uchaf a adroddwyd yn y gyfres o adroddiadau Pwysigrwydd Eiriolaeth. Mae nifer yr eiriolwyr gwirfoddol wedi gostwng ychydig o 127 yn 2020 i 117 yn 2022.

Mae ystod eang o wasanaethau eiriolaeth yn parhau i gael eu darparu ledled Cymru, sy'n cwmpasu'r holl fathau o eiriolaeth a ddisgrifir yn Rhan 10 Cod Ymarfer (Eiriolaeth) y Ddeddf. Mae nifer yr ardaloedd awdurdodau lleol lle mae eiriolaeth broffesiynol annibynnol a gomisiynwyd o dan y Ddeddf bellach yn cael ei chyflawni wedi codi un i 21. Mae'r un ardal awdurdod lleol sydd heb gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth yn ffurfiol o dan Ddeddf Cymru yn prynu cymorth eiriolaeth yn ffurfiol pan fo angen.

Mae darpariaeth ddaearyddol gyflawn o wasanaethau eiriolaeth ar gyfer grŵp cleientiaid ehangach ledled Cymru o hyd. Gan adeiladu ar ganlyniadau'r arolwg, mae Age Cymru yn parhau i fapio'r ystod o wasanaethau eiriolaeth ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, gan gynnal cyfweliadau dilynol lle bo angen. Mae'r canlyniadau'n dangos bod o leiaf saith math gwahanol o wasanaeth eiriolaeth ar gael i oedolion ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, yn dibynnu ar eu cymhwysedd.

**Mae rhai sylwadau ychwanegol a wnaed gan wasanaethau yn cynnwys:**

"Fe lwyddon ni i barhau i gefnogi pobl ar-lein drwy gydol y pandemig, ac rydym wedi dychwelyd i gynnal rhai gweithgareddau wyneb yn wyneb".

"Cadw cyllid yn annibynnol a mathau eraill o eiriolaeth. Mae'n wasanaeth amhrisiadwy sy'n cael ei anwybyddu yn ein barn ni, ac nid yw'n cael ei ariannu'n gywir".

"Mae rhwydweithiau eiriolaeth cenedlaethol a rhai rhanbarthol yn bwysig iawn ar gyfer cadw mewn cysylltiad. Gall gwasanaethau deimlo'n ynysig iawn felly mae'n bwysig cael y cysylltiad hwnnw ledled Cymru".

"Mae bron pob awdurdod lleol arall yng Nghymru wedi comisiynu Gwasanaeth Eiriolaeth Proffesiynol Annibynnol ac wedi cadw arian yn ôl ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth eraill".

"Mae yna arian Loteri ar gyfer prosiectau newydd - mae yna angen enfawr am arian craidd gan na ellir cael prosiectau heb sefydliad i'w rhedeg".

## Iaith

Wrth ddarparu gwasanaethau eiriolaeth i sicrhau bod lleisiau dinasyddion yn cael eu clywed a bod eu dymuniadau'n cael eu parchu, mae angen cynnig cymorth yn y cyfrwng y maent yn fwyaf cyfforddus ag ef boed hynny'n Gymraeg neu'n Saesneg.

Mae canran y sefydliadau ag eiriolwyr sy'n siarad Cymraeg wedi codi ychydig o 55% i 60% ers Pwysigrwydd Eiriolaeth 7. Mae nifer yr eiriolwyr sy'n siarad Cymraeg hefyd wedi cynyddu o 46 i 52.

Mae'r nifer sy'n manteisio ar gymorth eiriolaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau i fod yn isel iawn, gyda bron i 90% o wasanaethau'n parhau i adrodd bod 10% neu lai o'u cymorth yn cael ei ddarparu yn Gymraeg, gyda llawer yn dweud nad oes neb yn manteisio arnynt o gwbl.

## Ansawdd a safonau

Yn 2020, roedd gan 44% o'r ymatebwyr y Marc Perfformiad Ansawdd (QPM). Yn 2022 mae'r ffigur hwn wedi codi i 63%, er mai ychydig iawn o sefydliadau sydd bellach yn gweithio tuag at gyflawni'r QPM. Yn gyffredinol, mae canran y sefydliadau nad oes ganddynt y QPM ac nad ydynt yn gweithio tuag ato wedi aros tua 33%.

Mae cynnydd o hyd yng nghyfran y sefydliadau y mae gan eu staff bellach Gymhwyster Eiriolaeth Cenedlaethol City and Guild neu sy'n gweithio tuag at ei gyflawni. Cynyddodd yn ystod y cyfnod rhwng 2013 a 2020 o naw i 21 ac mae bellach wedi cynyddu eto i 22. Yn ogystal â hyn, mae gan dri sefydliad hefyd eiriolwyr sydd naill ai wedi neu sy'n gweithio tuag at y cymhwyster BA mewn Eiriolaeth.

Pan ofynnwyd am anghenion hyfforddi, Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid; cyfyng-gyngor eiriolaeth; gwrthdaro buddiannau; soniwyd am achosion cymhleth ac eiriolaeth anghyfarwydd mewn perthynas â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol.

## *Casgliadau ac argymhellion*

**Mae Pwysigrwydd Eiriolaeht 8 yn rhoi cipolwg wedi'i ddiweddaru o'r ddarpariaeth eiriolaeth yng Nghymru ar gyfer oedolion, gyda phwyslais arbennig ar bobl hŷn. Mae'n ymddangos bod nifer cyffredinol yr eiriolwyr, y bobl a gefnogir, a nifer y gwasanaethau a ariennir i ddarparu eiriolaeth ledled Cymru i gyd wedi cynyddu ers i'r arolwg diwethaf gael ei gyhoeddi yn 2020.**

Fel yn 2020, nid yw cyfweliadau dilynol gydag ymatebwyr a thrafodaethau mewn cyfarfodydd rhwydwaith eiriolaeth ledled Cymru, fodd bynnag, yn cefnogi'r farn bod cynnydd mawr wedi bod yn nifer y sefydliadau newydd a sefydlwyd i gefnogi oedolion o bob oed. Yn wir, mae nifer y sefydliadau sy'n cwblhau'r arolwg wedi gostwng dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'n hysbys bod nifer o sefydliadau a gwblhaodd yr arolwg yn flaenorol wedi peidio â darparu eiriolaeth. Mae arolygon coronafeirws o eiriolwyr yn dangos, ar ôl gostyngiad cychwynnol, fod nifer yr atgyfeiriadau i wasanaethau eiriolaeth yn dychwelyd i'r lefelau yr oeddent cyn Covid-19 a thu hwnt, gan roi mwy o bwysau ar wasanaethau eiriolaeth presennol.

Felly, gellir dod i'r casgliad bod y canlyniadau yn Pwysigrwydd Eiriolaeth 8 yn rhoi darlun ehangach fyth o wasanaethau eiriolaeth i oedolion yng Nghymru. Mae ymwybyddiaeth hefyd wedi parhau i ddatblygu o fewn y sector eiriolaeth ei hun wrth i sefydliadau adrodd am gyfleoedd estynedig i wybod mwy am ei gilydd ac o ganlyniad, gallant archwilio cyfleoedd i gydweithio a chefnogi ei gilydd.

Mae bron pob awdurdod lleol bellach wedi comisiynu gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol a gomisiynwyd o dan y Ddeddf. Codwyd pryder yn ystod cyfweliadau yn 2020 y gallai cyflawni



gofynion statudol ar gyfer eiriolaeth gael effaith ar argaeledd eiriolaeth lefel is, ataliol yn y gymuned. Byddai'r gostyngiad yn nifer y sefydliadau sy'n cwblhau'r arolwg Pwysigrwydd Eiriolaeth 8, a dadansoddiad o bwy yw'r sefydliadau hynny, yn awgrymu bod y pryderon hynny wedi dod i'r amlwg ar gyfer rhai o'r sefydliadau sy'n cefnogi oedolion o bob oed.

Mae'r ymwybyddiaeth a'r ddealltwriaeth gynyddol o faint, ansawdd, ystod ac amrywiaeth yr eiriolaeth sy'n bodoli yn galonogol iawn. Fodd bynnag, mae cyfweliadau dilynol a thrafodaethau gyda darparwyr eiriolaeth yn awgrymu mai ychydig o gynnydd a wnaed o ran ymestyn y ddealltwriaeth hon i ddarpar ddefnyddwyr gwasanaethau nac i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn cyrff statudol.

Er y gall rheolwyr a chomisiynwyr mewn awdurdodau lleol fod â gwell dealltwriaeth, mae mwy o hyfforddiant a gwybodaeth yn parhau i fod yn ofynnol gan weithwyr cymdeithasol sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda buddiolwyr posibl gwasanaethau eiriolaeth. Mae pandemig Covid hefyd wedi tynnu sylw at y diffyg dealltwriaeth a chymhwyso hawliau dynol pobl.

Yn wahanol i'r gostyngiad yn nifer y sefydliadau sy'n cefnogi pobl o bob oed, mae Age Cymru yn arbennig o falch o nodi'r cynnydd yn nifer y darparwyr eiriolaeth arbenigol, gwasanaethau ac eiriolwyr sy'n cefnogi pobl hŷn yn benodol. Mae hyn hefyd wedi arwain at gynnydd cysylltiedig yn nifer y bobl a gefnogir. Mae hyn wedi digwydd yn rhannol oherwydd bod Age Cymru yn sicrhau cyllid i gyflawni prosiectau Eiriolaeth HOPE a Dementia ledled Cymru gyfan.

Roedd y gostyngiad blaenorol mewn darparwyr arbenigol ym mhob arolwg ers Pwysigrwydd Eiriolaeth 4 yn 2013 wedi golygu gostyngiad parhaus yn y ffocws a'r arbenigedd ar gyfer cefnogi pobl hŷn drwy wasanaethau eiriolaeth gan ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar, atal ac eiriolaeth yn y gymuned. Mae'n galonogol iawn adrodd bod y duedd hon wedi'i gwrthdroi.

Yng ngoleuni'r gofynion newydd a osodir ar awdurdodau lleol ac effeithiau pandemig y Coronafeirws, rhagwelir y bydd y galw am wasanaethau eiriolaeth yn parhau i dyfu ac felly mae argaeledd a chynaliadwyedd gwasanaethau yn flaenoriaeth i bawb sy'n gysylltiedig. Mae cyfweliadau â darparwyr eiriolaeth a sylwadau a wnaed yn ystod yr arolwg yn awgrymu bod achosion yn dod yn fwyfwy cymhleth a llafurus ac y bydd hyn hefyd yn cael effaith ar gynaliadwyedd gwasanaethau yn y dyfodol.

Mae Age Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i gefnogi datblygiad y sector eiriolaeth annibynnol yng Nghymru ac mae'n ei ystyried yn arf hanfodol i sicrhau llesiant pob dinesydd, nid dim ond pobl hŷn. Ers Pwysigrwydd Eiriolaeth 7, mae Age Cymru wedi sicrhau cyllid i ddarparu eiriolaeth
yn uniongyrchol i bobl hŷn. Mae prosiect HOPE yn sicrhau bod eiriolaeth lefel isel, a ddarperir gan wirfoddolwyr, yn y gymuned, ar gael i bobl hŷn a'u gofalwyr ym mhob rhan o Gymru. Mae'r prosiect Eiriolaeth Dementia yn sicrhau bod cymorth arbenigol ar gael i bobl hŷn a'u gofalwyr ledled Cymru. Mae Age Cymru hefyd yn parhau i hyrwyddo a darparu'r cymorth a'r adnoddau a ddatblygwyd ar gyfer y sector eiriolaeth yng Nghymru yn ystod Rhaglen Eiriolaeth Golden Thread.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Age Cymru drwy e-bostio **advocacy@agecymru.org.uk**

**Sylwer:**

Mae ymatebwyr yr arolwg Pwysigrwydd Eiriolaeth yn hunan-ddethol. Mae'r ymatebion yn seiliedig ar p'un a'i hydynt yn darparu gwasanaethau eiriolaeth a ariennir sy'n benodol ar gyfer neu'n cynnwys pobl hŷn fel rhan o'u grŵp cleientiaid. Er ein bod yn ymdrechu i gasglu data gan bob darparwr, nid yw cwblhau'r arolwg yn orfodol.

Roedd y data a gasglwyd gennym yn hydredol, ac felly'n adlewyrchu'r arolygon eraill yn ein cyfres ond rydym wedi tynnu data i roi'r darlun llawnaf o wasanaethau eiriolaeth yng Nghymru, gan wneud y data'n ddefnyddiol i gomisiynwyr, darparwyr a dinasyddion fel ei gilydd.

# 3. Datblygiadau mewn eiriolaeth yng Nghymru

## Eiriolaeth Yn Ystod Coronafeirws

Ers Pwysigrwydd Eiriolaeth 7 yn 2020, mae pandemig y Coronafeirws wedi cael effaith sylweddol ar wasanaethau eiriolaeth yng Nghymru. Ym mis Mehefin 2020, cynhaliwyd arolwg o eiriolwyr i gasglu tystiolaeth o effaith pandemig y Coronafeirws. Arweiniodd hyn at yr adroddiad Gwerthfawrogi Lleisiau yng Nghymru: Diogelu Hawliau drwy'r Pandemig a Thu Hwnt. Ym mis Mehefin 2021, casglodd y sector eiriolaeth yng Nghymru dystiolaeth unwaith eto o effaith y pandemig ar bobl sydd â hawl i eiriolaeth, hygyrchedd ac ansawdd eiriolaeth ac ar allu gwasanaethau i ddarparu eiriolaeth. Ceisiodd arolwg Eiriolaeth yn ystod Coronafeirws 2021 ddeall beth oedd wedi newid dros y flwyddyn yn y cyfamser, yr heriau presennol a'r hyn a oedd wedi gweithio'n dda mewn ymateb i'r pandemig.

Daeth y ddau adroddiad i'r casgliad bod methiannau hawliau dynol, materion diogelu a gwneud penderfyniadau cyffredinol yn cael effaith sylweddol ar gleientiaid eiriolaeth. Roedd yr effaith ar lesiant cleientiaid wedi'i gwaethygu gan y diffyg pecynnau gofal a chymorth gan wasanaethau eraill.

Yn 2020, lleihawyd nifer yr atgyfeiriadau i wasanaethau eiriolaeth, ond erbyn arolwg 2021, roedd nifer yr atgyfeiriadau i wasanaethau eiriolaeth wedi dychwelyd i'r lefelau yr oeddent cyn Covid-19 a thu hwnt. Mae hyn yn gyson ag ymatebion i'r arolwg Pwysigrwydd Eiriolaeth 8. Er ei bod yn gydnabyddiaeth i'w chroesawu o bwysigrwydd eiriolaeth, mae hyn hefyd yn effeithio ar wasanaethau a oedd eisoes dan bwysau ac nad ydynt wedi cael unrhyw arian ychwanegol. Er bod y rhan fwyaf o eiriolwyr yn teimlo bod eu heffeithiolrwydd wedi gwella, teimlai'r mwyafrif llethol fod eu llesiant eu hunain wedi dirywio.

Yn 2021, teimlai eiriolwyr a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi darparu gwasanaeth rhagorol i'r rhai a oedd wir ei angen yn ystod y pandemig. Roedd eiriolwyr wedi dod yn greadigol yn y ffordd yr oeddent yn gweithio ac yn croesawu ffyrdd newydd o weithio ac opsiynau cyfathrebu amgen.

**Isod ceir sylwadau ychwanegol yn ystod arolwg Pwysigrwydd Eiriolaeth 8:**

"Mae pwysigrwydd darparu eiriolaeth wyneb yn wyneb yn parhau a gellir defnyddio technoleg hefyd i roi cymorth i bobl, gan ryddhau amser eiriolwyr i gynorthwyo mwy o bobl".

"Mae'r pandemig wedi gadael llawer iawn o gleientiaid heb gefnogaeth. Fel darparwyr eiriolaeth, mae'n bwysig helpu cleientiaid i wella eu barn".

"Mae gan y rôl eiriolaeth rôl ddiogelu allweddol i bobl sy'n agored i niwed drwy'r cyfnod hwn".

"Mae'r anghydraddoldebau a brofir gan y bobl rydym yn eu cefnogi wedi cynyddu o ganlyniad i effaith Covid-19".

"Bydd angen eiriolaeth yn fwy nag erioed wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio. Parhau i weithio o bell pan fo'n briodol".

"Roedd eiriolaeth yn cadw pobl i fynd pan oedd gwasanaethau statudol yn methu".

"Mae eiriolaeth wedi dangos ei werth yn ystod y pandemig a dylai fod cydnabyddiaeth fwy proffesiynol o'r gwasanaeth eiriolaeth a chynnydd mewn cyllid".

## Newid o'r Trefniadau Diogelu rhag Amddifadu Rhyddid i Ddiogeliadau Amddiffyn Rhyddid

Bydd Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygiad) 2019 yn arwain at drosglwyddo o'r trefniadau Trefniadau Diogelu Amddifadu Rhyddid (DoLS) presennol i'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid (LPS) diwygiedig. Roedd LPS i fod i ddod i rym ym mis Ebrill 2022, ond ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd y Cod Ymarfer drafft wedi'i gyhoeddi eto. Ar ôl ei gyhoeddi, byddai cyfnod ymgynghori cyhoeddus 12 wythnos. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cadarnhau y bydd oedi ond nad ydynt eto wedi cyhoeddi amserlen ddiwygiedig.

## Newidiadau arfaethedig i'r Cynghorau Iechyd Cymuned ac eiriolaeth cwynion

O fis Ebrill 2023, bydd Corff Llais y Dinesydd (CVB) yn cynrychioli lleisiau a barn pobl Cymru mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y CGB yn disodli Cynghorau Iechyd Cymuned (CIC). Un o effeithiau posibl hyn yw y gallai cylch gwaith gwasanaethau eiriolaeth cwynion GIP ymestyn i gynnwys cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol. Nid yw'r manylion llawn wedi'u cyhoeddi eto ynghylch beth allai goblygiadau'r CGB newydd ar eiriolaeth a hefyd ar arferion gwaith o fewn y CGS ac ar wasanaethau a gomisiynwyd eisoes gan awdurdodau lleol.

## Cyflwyno'r fframwaith cymwysterau newydd a chymhwyster eiriolaeth newydd

Ers Pwysigrwydd Eiriolaeth 7, mae'r cymhwyster eiriolaeth lefel 4 newydd wedi dechrau cael ei gyflwyno yng Nghymru. Roedd hyn yn dilyn adolygiad o gymwysterau ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant gan Gymwysterau Cymru. Bydd y cymhwyster presennol yn cael ei gydnabod fel cymhwyster rhagflaenol i'r rhai sydd wedi dechrau neu sydd eisoes wedi'i ennill.

## Newidiadau i'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Cyhoeddodd Llywodraeth San Steffan gynigion Papur Gwyn ar gyfer diwygio'r Ddeddf Iechyd Meddwl ym mis Ionawr 2021. Manteisiodd y sector eiriolaeth yng Nghymru ar y cyfle i roi ymateb unedig i'r diwygiadau arfaethedig yn ystod yr ymgynghoriad.

Mae llywodraethau Caerdydd a San Steffan wedi ymateb i'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac mae rhywfaint o eglurder ynghylch y cynigion a fydd yn cael eu datblygu:

- Cyflwyno Dogfennau Dewis Uwch, cyfleoedd go iawn ar gyfer dewis y cleifion a her o ran opsiynau triniaeth, dewis y cleifion dros eu perthynas agos (person enwebedig arfaethedig).
- Mae meini prawf mwy cadarn sy'n arwain at lai o gadw ar ôl o dan y Ddeddf, yn enwedig ar gyfer pobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig.
- Gwell hawliau i apelio i gleifion a'r bobl sydd yn eu cynrychioli, a mwy o bwerau i'r Tribiwnlys fynd y tu ôl i'r meini prawf cadw ar ôl ac archwilio cynlluniau gofal a thriniaeth.
- Er bod darpariaeth IMHA (Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol) ar gael yn ychwanegol yng Nghymru ar gyfer pobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty yn anffurfiol yn ogystal â'r rhai a gedwir o dan y Ddeddf, y cynnig allweddol yw gwneud IMHA yn wasanaeth optio allan yn hytrach na gwasanaeth cyfeirio i mewn, gyda mwy o bwerau i IMHAu gefnogi apeliadau ar ran pobl nad oes ganddynt alluedd neu sydd wedi'u datgysylltu rhag gwneud cais eu hunain.

Rhagwelir y bydd y Ddeddf Iechyd Meddwl newydd yn cael ei chyflwyno fel cyfraith yn 2023.

## *Gweminarau'r Digwyddiad Mawr*

Yn ystod hydref 2020, cynhaliwyd y Digwyddiad Mawr Eiriolaeth rithwir cyntaf a'i gynnal gan brosiect eiriolaeth HOPE ar gyfer y sector eiriolaeth i oedolion ledled Cymru. Cynhaliwyd y digwyddiad ar-lein oherwydd cyfyngiadau Covid19, ond roedd yn gyfle hynod lwyddiannus i eiriolwyr o bob rhan o'r sector ddod at ei gilydd a chwrdd â chyfle datblygu gwerth chweil, ac i eiriolwyr rannu eu gwybodaeth a'u profiadau.

Yn dilyn llwyddiant digwyddiad 2020, cynhaliodd prosiect eiriolaeth HOPE yr ail Ddigwyddiad Mawr Eiriolaeth rithwir ym mis Tachwedd 2021. Canolbwyntiodd y ddau ddigwyddiad ar ganfyddiadau'r ddau arolwg Coronafeirws ac eiriolwyr o bob rhan o Gymru yn medru trafod y canfyddiadau a'u goblygiadau. Gwahoddwyd siaradwyr allweddol i gyflwyno i'r sector eiriolaeth, i agor trafodaethau a chyfleoedd rhwydweithio gyda'r gymuned eiriolaeth ehangach ac i ystyried yr argymhellion a wnaed.

**Mae'r ddau adroddiad cynhadledd i'w gweld ar wefan Age Cymru:**

**www.agecymru.org.uk**

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

Advocacy QPM AWARD

age connects wales.

Age Cymru, Llawr Gwaelod, Tŷ Mariners, Llys Trident,
Heol East Moors, Caerdydd CF24 5TD
Ffôn: 029 2043 1555 Ffacs: 029 2047 1418
E-bost: enquiries@agecymru.org.uk www.agecymru.org.uk

age Cymru
Creu Cymru oed gyfeillgar

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig 1128436. Cwmni cyfyngedig trwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Swyddfa gofrestredig fel yr uchod. ©Age Cymru 2022

***Dilynwch ni ar:*** facebook.com/agecymru twitter.com/agecymru